**Suzy Davies (Aelod)**

**Comisiynydd y Cynulliad**
**Assembly Commissioner**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

4 Tachwedd 2016

Annwyl Simon

Diolch am adroddiad eich Pwyllgor, **Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2017-18**, a gyhoeddwyd ar 19 Hydref 2016. Mae'r Comisiwn yn derbyn holl argymhellion y Pwyllgor Cyllid fel y'u nodir yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am eich gwaith craffu ac rwy'n edrych ymlaen at y ddadl ar y cynnig ynghylch cyllideb y Comisiwn ar 16 Tachwedd. Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu yn ddidwyll, yn dryloyw ac yn glir, felly os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach, rhowch wybod i mi.

Yn gywir

Suzy Davies

cc Claire Clancy, Nia Morgan

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn • Tel: 0300 200 6528
Ffacs • Fax: 029 2089 8117
E-bost• Email: Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
Ysgrifenyddiaeth Comisiwn y Cynulliad/Assembly Commission Secretariat

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Atodiad

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2017-2018

Ymateb Comisiwn y Cynulliad i'r Argymhellion

*Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn nodi'r manylion yn y ddogfen, 'Cyllideb ddrafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017-18' ac, yn amodol ar y sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, yn cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau yn 2017-18, ac yn argymell bod y Cynulliad yn cefnogi'r gyllideb hon.*

Mae'r Comisiwn yn croesawu'r argymhelliad ac yn cytuno â'r Pwyllgor y gallai'r cynlluniau gwariant y tu hwnt i 2017-18 newid yn y dyfodol o ystyried yr ansicrwydd presennol mewn sawl maes.

*Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod angen adnoddau ychwanegol i gefnogi blaenoriaethau'r Pumed Cynulliad wrth iddo symud ymlaen, ond er mwyn sicrhau tryloywder a chynnig eglurder, argymhellir y dylid darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sut y defnyddiwyd yr adnoddau a ddyrannwyd yn dilyn yr ymarfer cynllunio capasiti manwl.*

Mae'r Comisiwn yn cytuno.

Mae ymarfer i sicrhau bod adnoddau staffio yn cyd-fynd ag anghenion yn rhan hanfodol o waith cynllunio'r Comisiwn. Mae'r asesiad cynllunio capasiti blynyddol hwn yn llywio penderfyniadau o ran unrhyw swyddi newydd ac yn sicrhau bod gennym y staff cywir yn y mannau cywir. Rydym wrthi'n cynnal adolygiad o'n cynlluniau capasiti eleni ar hyn o bryd. Byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor i nodi canlyniad y broses hon unwaith y bydd wedi ei chwblhau.

*Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn fuan cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan fanylu ar y tanwariant a ddisgwylir o ran yr arian a ryddhawyd i gyllido penderfyniad y Bwrdd Taliadau a chyfiawnhau sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn defnyddio'r tanwariant hwn.*

Mae'r Comisiwn yn cytuno.

Byddwn yn rhoi ymateb i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2017. Bydd dogfen ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon gyfer 2016-17 hefyd yn cynnwys manylion llawn am ein gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

*Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod costau manwl mewn perthynas â'r costau sy'n gysylltiedig â phrosiectau buddsoddi TGCh yn cael eu cynnwys o fewn y Gyllideb Ddrafft yn y dyfodol.*

Mae'r Comisiwn yn cytuno.

Bydd cyllidebau'r dyfodol yn cynnwys mwy o wybodaeth am y gwaith TGCh a gynlluniwyd i gyflawni strategaeth TGCh y Comisiwn.